**Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth MID 03-01(t.2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 13 Gorffennaf 2001 |
| **Amser:** | 10.30am hyd 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd Gymuned Llanidloes |

**Papur Arolygu Polisi**

Yr egwyddor sy’n arwain y Cynulliad Cenedlaethol ar gwestiwn ynni adnewyddadwy yw y dylid hybu datblygiad sy’n cadw adnoddau naturiol ac yn parchu’r amgylchedd. Mae gennym ymrwymiad i sicrhau fod twf economaidd yn dderbyniol o safbwynt cymdeithas a’r amgylchedd, a hefyd i sicrhau yr anogir sector ynni Cymru i ddefnyddio technoleg ynni glân. Nod y strategaeth hon, sy’n rhan o strategaeth ynni ehangach, fydd sicrhau fod Cymru’n gosod esiampl ym maes technoleg ynni glân a hyrwyddo defnydd ynni adnewyddadwy lle bynnag y bo’n economaidd ddeniadol ac yn amgylcheddol dderbyniol.

Mae’r Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu ynni adnewyddadwy. Yr her sy’n wynebu Cymru yw sut i wneud hyn yng nghyd-destun materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Trwy ddiffiniad, nid yw ynni adnewyddadwy’n disbyddu adnoddau naturiol. Mae daearyddiaeth, hinsawdd ac adnoddau naturiol Cymru’n cynnig cyfleoedd arbennig o arwyddocaol i ddatblygu a gweithredu technoleg ynni adnewyddadwy. Mae diddordeb mawr o fewn y diwydiant a bydd y Cynulliad yn gobeithio adeiladu ar hynny ac yn ceisio datblygu diwydiant cyflenwi arwyddocaol mewn technolegau adnewyddadwy newydd. Fodd bynnag, mae angen i’r Cynulliad gamu ymlaen gan bwyll, gan gasglu a defnyddio’r wybodaeth orau bosib ar hyd y ffordd. Pe baem yn cyfeiliorni ar hyn, byddai hyn yn anghymwynas fawr nid yn unig i ddinasyddion Cymru ond hefyd i ddinasyddion y byd, gyda’u gofynion ynni a’u problemau amgylcheddol byth-gynyddol.

Dyma’r prif dechnolegau ynni adnewyddadwy aeddfed: ynni gwynt ar y tir, ynni gwynt ar y môr, ynni dwr, bio-màs, gwresogi drwy ynni’r haul, ffotofoltäeg, grym y llanw, grym tonnau ac ynni o wastraff. Yn y tymor byr i ganolig, ynni gwynt ar y tir, bio-màs, pwer dwr, ffotofoltäeg ac ynni’r haul sy’n cynnig y cyfleoedd gorau ar gyfer gweithredu a datblygu diwydiant.

Fel rhan o adolygiadau ‘rhanbarthau’ y DU, comisiynodd y Cynulliad astudiaeth i’r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Ysgogwyd yr astudiaeth hon hefyd gan awydd y Cynulliad i archwilio’r potensial hwn. Mae’r adroddiad, a wnaed gan Sustainable Energy Limited, bellach wedi’i gwblhau ac mae’r drafft wedi’i anfon i’w adolygu gan gymheiriaid. Yr ydym yn aros am y sylwadau a

ddaw'n ôl cyn gwneud dim mwy ar y mater hwn. Bwriad y Cynulliad yw cynnal gweithdy pan fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau er mwyn ceisio dod i gasgliadau ynghylch sut orau i gamu ymlaen gydag ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Mae'n werth nodi hefyd fod Pwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad wedi penderfynu cynnal adolygiad o ynni yng Nghymru, gan gynnwys ystyriaeth i ynni adnewyddadwy. Dechreuir yr adolygiad yn fuan a bydd yn ymchwilio i'r posibiliadau tymor hir ar gyfer cynhyrchu a defnyddio ynni (ar wahân i drafnidiaeth) yng Nghymru ac yn gwneud argymhellion i Gabinet y Cynulliad ynghylch fframwaith strategol ar gyfer sicrhau'r sefyllfa orau o ran defnyddio a chynhyrchu ynni mewn modd cynaliadwy yng Nghymru o 2010 ymlaen.